**LC252**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi diwrnod i ddarpariaethau penodol yn Neddf Safonau Gofal 2000 ddod i rym.

Deellir bod cychwyniadau tebyg yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ni chafodd y dyddiad cychwyn ei fewnosod yn erthygl 2 o'r Gorchymyn drafft.

Mae hyn yn fater y bydd angen ei gywiro a byddai Memorandwm Cywiriadau yn briodol at y diben. Ar yr amod bod Memorandwm Cywiriadau yn cael ei osod yn briodol at y diben hwn, mae'r Pwyllgor yn gallu cadarnhau nad oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y byddai angen gwahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

Tynnir sylw hefyd at y mân bwyntiau canlynol yr awgrymir y dylid eu cywiro mewn Memorandwm Cywiriadau neu wrth argraffu.

**Y Nodyn Esboniadol, paragraff 2**

Mae angen mewnosod y dyddiad cychwyn.

**Nodyn ar y Gorchmynion Cychwyn blaenorol**

Yn y paragraff agoriadol dylai'r rhifau W. ac Cy. gael eu mewnosod ar gyfer OS 2001/139.

**Erthygl 2**

Dylai'r pennawd gyfeirio at "diwrnod" yn yr unigol.

**Yr Atodlen**

Yn y cofnod sy'n ymwneud ag adran 23, mae'r testun Saesneg yn gywir yn cynrychioli cynnwys yr adran fel "National minimum standards". Ond mae'r ddarpariaeth gyfatebol yn y testun Cymraeg yn ei gyfieithu fel "Safonau cenedlaethol gofynnol".

Er mwyn bod yn gyson â'r cofnodion eraill dylid cael rhywbeth mewn cromfachau i ddangos cynnwys adran 79(3) a (4).

Yn y cofnod ar gyfer adran 108 mae atalnod llawn diangen yn y testun Saesneg ar ôl "inspections".

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001